LLWYDDO'N LLEOL

YN RHOI HWB I GYFLEOEDD GWAITH POBL IFANC

ENW: Llio Elenid

LLEOLIAD: Dyffryn Nantlle, Gwynedd

Y SWYDD: Yr Orsaf - Swyddog Treftadaeth

PAM ES TI AT LLWYDDO'N LLEOL?

Pwrpas fy swydd ydi sefydlu hwb treftadaeth a chelf ym Mhenygroes. Y syniad efo'r hwb ydi ei fod o'n le i ddweud stori Dyffryn Nantlle a rhoi pwyslais ar yr hanes a'r ochr gymdeithasol. Mae bob tro wedi bod yn bwysig i fi i gyd-weithio efo fy nghymuned yn Ddyffryn Nantlle, ac on i'n lwcus iawn bod y cyfle wedi dod i fyny drwy elfen gyrfaol Llwyddo'n Lleol.

BETH FUES TI'N EI WNEUD?

Dwi'n gweithio yn Yr Orsaf, sef menter gymunedol Dyffryn Nantlle, ond yn ogystal â sefydlu'r Hwb, dwi'n cefnogi lot o brosiectau eraill. Mae rhai ohonyn nhw'n cynnwys cynnig prydau am ddim, rhoi pas i bobl yn y ceir trydan i lefydd fel syrjeri doctor, neu drefnu gig i bobl leol fwynhau.

Un o'r prosiectau dwi fwynhau fwyaf yn fy swydd ydy cynnal teithiau cerdded. Dwi'n meddwl bod o'n rhywbeth mor bwysig i bobl leol gael mwynhau eu hardal a chael gwybod am yr ardal. Yn enwedig hefo dynodiad ardal lechi *UNESCO*, mae 'na fwy o sylw a mwy o dwristiaid yn dod yma – dwi'n meddwl ei fod o'n bwysig bod pobl lleol hefyd yn gwybod be sy 'na allan yna ar eu *stepan* drws.

PA EFFAITH MAE HYN WEDI'I GAEL?

Mae cefnogaeth Llwyddo'n Lleol wedi caniatáu i mi weithio mewn swydd dwi wirioneddol mwynhau, a dwi wir wedi *joio'r* profiad. Mae'r elfen Gyrfaol drwy Llwyddo'n Lleol wedi gadael i mi ddatblygu sgiliau cyfathrebu, i allu siarad o flaen pobl, i arwain ac i gael fwy o hyder ynof i fy hun. Un o fy hoff bethau o'r cynllun oedd y gallu i rwydweithio a chyfarfod pobl eraill yn fy mro, mae hyn wedi bod yn werthfawr iawn i mi.

Ond yn fwy na hynny, mae'r swydd wedi caniatáu i mi aros yn fy ardal leol ac mi fyswn i yn hoffi aros yma yn y dyfodol. Oherwydd y sgiliau cyfathrebu a'r hyder ges i o'r swydd yma, rydw i wedi cael fy ethol fel cynghorydd ar Gyngor Gwynedd ac yn parhau i ddarganfod cyfleoedd i mi allu aros yn fy ardal leol.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government